## Gradd Genedlaethol Meistr mewn Addysg

---

### Cyflwyniad

Ym mis Mai 2020 cafodd cymhwyster newydd Gradd Meistr mewn Addysg ei gymeradwyo i'w addysgu o fis Medi 2021 ymlaen. Bydd saith Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn darparu'r cymhwyster, a dim ond yn y system addysg yng Nghymru y bydd ar gael.

Y saith sefydliad addysg uwch partner sydd wedi ymrwymo i ddarparu'r rhaglen yw:

Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Prifysgol De Cymru

### Ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa

Cytunwyd ar y canlynol:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi unigolion ar gam cynnar yn eu gyrfa (blwyddyn 3-6 o'u gwaith fel athro) i allu manteisio ar y Radd Meistr o 2021 ymlaen. Bydd y cyllid hwn yn talu costau'r cwrs.
- Bydd modd i hyd at 500 o fyfyrwyr ledled Cymru fanteisio ar y grant yn ystod 2022.
- Bydd myfyrwyr yn gallu cael benthyciad ar ben y grant lle y bo'n addas ar ôl 2023.

Mae'r wybodaeth isod yn nodi'r meini prawf cymhwystra y cytunwyd arnynt er mwyn i fyfyrwyr (hyd at 500) fanteisio ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen. Bydd y sefydliadau addysg uwch yn penderfynu pwy sy'n gymwys yn academaidd, ac yn pennu cyfwerthedd unrhyw gredydau.

### Cymhwystra y cytunwyd arno ar gyfer cyllid - ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa

Y bwriad yw symud tuag at gyllido myfyrwyr Gradd Meistr mewn Addysg yn y dyfodol (myfyrwyr sy'n dechrau astudio o 2023 ymlaen) drwy addasu'r cynllun cyllido astudiaethau ôl-raddedig presennol sy'n cael ei weinyddu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae'r meini prawf cymhwystra a nodir isod yn perthyn yn benodol i fyfyrwyr sy'n dechrau'r Radd Meistr mewn Addysg yn ystod 2022 (gan y bydd myfyrwyr yn parhau i gael eu cyllido drwy'r llwybr hwn a ariannir drwy grant drwy gydol eu hastudiaethau). Mae'n bosibl y bydd meini prawf ychwanegol neu rai gwahanol yn berthnasol i garfannau'r dyfodol.

Rhaglen ran amser yn unig yw hon, ac nid yw ar gael i ddysgwyr rhyngwladol.

Bydd modd i fyfyrwyr nad ydynt yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru ymgymryd â'r Radd Meistr mewn Addysg, ond ni fydd modd iddynt fanteisio ar y cyllid penodol dan sylw yma.

**Meini prawf cymhwystra y cytunwyd arnynt - ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa**

Rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion derbyn academaidd y sefydliad addysg uwch. Bydd y prifysgolion yn pennu hyd at 500 o ymgeiswyr ledled Cymru a fydd yn gymwys i gael y grant llawn. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid bod ymgeiswyr:

- Yn byw yng Nghymru;
- Wedi cael addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol;
- Â statws athro cymwysedig ac wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel athro ysgol neu fel athro addysg bellach (rhaid cadw'r statws hwn a bod wedi cofrestru â'r Cyngor drwy gydol y rhaglen);
- Wedi'ch cyflogi fel athro gan ysgol a gynhelir yng Nghymru;
- Wedi’ch cyflogi yn y sector addysg bellach fel athro yng Nghymru;
- Wedi'ch cyflogi ar gontract o leiaf 0.4 cyfwerth ag amser llawn. Gall hyn gynnwys athrawon cyflenwi ar gontractau tymor hir, naill ai gydag Awdurdod Lleol, neu ysgol neu asiantaeth;
- Rhwng blwyddyn 3 a blwyddyn 6 o ymarfer ers cwblhau'r cyfnod sefydlu pan fyddant yn dechrau'r cwrs;
- Wedi cael eu derbyn/wedi cofrestru ar y Radd Meistr mewn Addysg benodol hon a gynigir gan y saith sefydliad addysg uwch partner, sef:

| | |
|---|---|
| Prifysgol Abertawe | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Prifysgol Aberystwyth | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| Prifysgol Bangor | Prifysgol De Cymru |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | |

- Dylai ymgeiswyr sicrhau cymorth eu Pennaeth/Prifathro, lle y bo'n bosibl;
- Os bydd unigolyn eisoes wedi cael Gradd Meistr pwnc benodol, mae'n dal i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid tuag at y rhaglen hon;
- Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn tuag at unrhyw gymwysterau Gradd Meistr mewn Addysg eraill a gynigir gan y sefydliadau addysg uwch.

**Amodau cyllido penodol y cytunwyd arnynt - ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa**

Rhaid i bawb sydd am wneud cais am gymorth gydnabod yr amodau cyllido penodol canlynol a chytuno â nhw.

- Drwy dderbyn y cynnig grant hwn, rhaid i athrawon barhau i weithio yng Nghymru, naill ai yn y system addysg a gynhelir neu yn y sector addysg bellach am o leiaf dwy flynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen.
- Ni ddylai ymgeiswyr sy'n cael y cyllid hwn wneud cais am ragor o gymorth cyllido astudiaethau ôl-raddedig drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

**Y broses y cytunwyd arni ar gyfer cael y cyllid - ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa**

Caiff y grant ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau addysg uwch sy'n rhan o'r rhaglen. Ni fydd unigolion yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru nac i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am gymorth.

**Meini prawf cymhwystra arfaethedig ar gyfer cyllid y Llwybr Arweinyddiaeth ar gyfer derbyn ymgeiswyr ar y Radd Genedlaethol Meistr mewn Addysg yn 2022**

Rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion derbyn academaidd y sefydliad addysg uwch.

Bydd y sefydliadau addysg uwch yn pennu hyd at 50 o ymgeiswyr ledled Cymru a fydd yn gymwys i gael y grant llawn. **Ni fydd yr ymgeiswyr hyn yn ychwanegol** i'r 500 o leoedd i ymgeiswyr y cytunwyd arnynt eisoes - byddant yn rhan o'r grŵp hwn o 500 o fyfyrwyr, ond bydd meini prawf penodol yn berthnasol i'r garfan hon. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid bod ymgeiswyr:

- Wedi cael addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol;

- Â statws athro cymwysedig ac wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel athro ysgol, athro ymgynghorol mewn awdurdod lleol neu athro mewn lleoliad megis uned cyfeirio disgyblion (rhaid cadw'r statws hwn a bod wedi cofrestru â'r Cyngor drwy gydol y rhaglen) **NEU** fod yn ddarlithydd coleg sydd wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (rhaid bod wedi cofrestru â'r Cyngor drwy gydol y cwrs);

- Wedi'u cyflogi gan ysgol a gynhelir yng Nghymru / coleg yng Nghymru / awdurdod lleol yng Nghymru fel athro / darlithydd / athro ymgynghorol **NEU** fod wedi'u cyflogi gan ysgol annibynnol gofrestredig neu goleg arbenigol;

- Wedi'u cyflogi ar gontract o leiaf 0.4 cyfwerth ag amser llawn. Gall hyn gynnwys athrawon cyflenwi/darlithwyr ar gontractau tymor hir, naill ai gydag Awdurdod Lleol, ysgol, coleg neu asiantaeth;

- Wedi cael eu derbyn/wedi cofrestru ar y Radd Meistr mewn Addysg benodol hon a gynigir gan y saith sefydliad addysg uwch partner, sef:

  Prifysgol Abertawe
  Prifysgol Aberystwyth
  Prifysgol Bangor
  Prifysgol Metropolitan Caerdydd
  Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
  Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
  Prifysgol De Cymru

- Yn dilyn y Llwybr Arweinyddiaeth;

- Lle y bo'n bosibl, dylai ymgeiswyr gael y gymeradwyaeth a'r cymorth sydd eu hangen gan eu cyflogwr (ysgol, awdurdod lleol, lleoliad neu goleg) i ymgymryd â'r Radd Genedlaethol Meistr mewn Addysg;

- Os bydd unigolyn eisoes wedi cael Gradd Meistr pwnc benodol, mae'n dal i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid tuag at y rhaglen hon.

- Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn tuag at unrhyw gymwysterau Gradd Meistr mewn Addysg eraill a gynigir gan y sefydliadau addysg uwch.

**Amodau penodol y cyllid - Llwybr Arweinyddiaeth - pob blwyddyn**

Rhaid i bawb sydd am wneud cais am gymorth gydnabod yr amodau cyllido penodol canlynol a chytuno â nhw.

Drwy dderbyn y cynnig grant hwn, rhaid i ymarferwyr weithio fel athro neu ddarlithydd yn un o'r lleoliadau canlynol am o leiaf ddwy flynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen.

- Ysgol a gynhelir/uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru;
- Sefydliad addysg bellach yn y sector addysg bellach yng Nghymru;
- Ysgol annibynnol gofrestredig;
- Coleg arbenigol.

Ni ddylai ymgeiswyr sy'n cael y cyllid hwn wneud cais am ragor o gymorth cyllido astudiaethau ôl-raddedig drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

**Y broses ar gyfer cael y cyllid**

Caiff y grant ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau addysg uwch sy'n rhan o'r rhaglen. Ni fydd unigolion yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru nac i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am gymorth.